I S - D D E D D F W R I A E T H

# LlC24-39

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Awst 2024* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 19(1), 203(9) a 204(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth 2024.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Medi 2024.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi—

(a) i bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru, a

(b) i bob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.

### Comisiynu gofal a chymorth

**2.** Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol a phob Ymddiriedolaeth GIG arfer ei swyddogaethau yn unol

(**1**) 2006 p. 42.

â'r darpariaethau perthnasol yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer, a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru ar 24 Gorffennaf 2024 ac a ddaeth i rym ar 1 Medi 2024.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
27 Awst 2024